

CYNGOR GWYNEDD

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a baratoir o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2010-2013

RHAGAIR

Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg statudol cyntaf Cyngor Gwynedd yn 1996. Fe'i adolygwyd yn 2004 ac yna yn 2006 yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yma'n ddiweddariad ar ac yn fersiwn diwygiedig o Gynllun 2006.

Mae'n bleser gan y Cyngor gyflwyno'r fersiwn newydd hwn ar gyfer y cyfnod o weithredu 2010- 2013.

1. CEFNDIR Y CYNLLUN

1.1. Datganiad

1.1.1 Mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni, oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor yn un o amcanion strategol y Cyngor.

1.1.2 Yn ei ymwneud â'r cyhoedd ac wrth weithredu'r broses ddemocrataidd bydd y Cyngor yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal a bydd gan y ddwy iaith yr un statws a dilysrwydd.

1.1.3 Diben y Cynllun hwn yw dangos sut y bydd y Cyngor yn cynllunio a darparu ei wasanaeth Cymraeg a Saesneg i'r cyhoedd ar y sail eu bod yn gyfartal yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1.1.4 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwmo i brif-ffrydio'r iaith Gymraeg. Mae yna gyfrifoldeb ar holl staff ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg.

1.1.5 Mae'r Gymraeg yn elfen o Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru, sef teclyn a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hwyluso'r cyswllt rhwng anghenion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg a strwythurau Rhaglen Wella Cymru. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwmo i'r Fframwaith ac i'r nod o brif-ffrydio'r iaith Gymraeg drwy ei holl waith a'i weithdrefnau

1.1.6 Bydd materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a'n hymrwymiad i wella ein harferion parthed dwyieithrwydd yn plethu'n ganolog i'r broses cynllunio busnes a rheoli perfformiad. Dan arweiniad y Gwasanaeth Cyfeiriad Strategol a thrwy gasglu tystiolaeth a chynnal asesiadau effaith, sicrhair fod materion iaith yn cael eu gweu i gynllunio busnes yr holl wasanaethau perthnasol. Mae'r Cyngor hefyd yn croesawu ei rôl o fewn y strwythur cenedlaethol ehangach ar gyfer hyrwyddo'r iaith. Rydym yn adnabod fod ein gweithgaredd a'n hymrwymiad i'r agenda yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael ei ddatgan yn y ddogfen bolisi "Iaith Pawb". Mae Iaith Pawb yn nodi targedau allweddol ar lefel genedlaethol, ac o berthnasedd penodol i Wynedd ac i'r Cynllun yma, gellir nodi'r targedau isod:

- bod y ganran o bobl Cymru sydd yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o Gyfrifiad 2001

- bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal
- bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg
- bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd
- ei bod yn bosibl i gyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

1.1.7 Amcanion sylfaenol y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg yw:-

- galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor.
- sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

1.2 Polisiau a Mentrau Newydd

- 1.2.1 Dylid sicrhau bod unrhyw gynlluniau, menter neu bolisiau newydd a fabwysiedir gan y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn ac yn hwyluso a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Bydd cyfeiriad at y Cynllun hwn mewn unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiau o eiddo'r Cyngor lle bo hynny'n berthnasol. Hefyd gwneir asesiad o ganlyniadau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu fenter newydd wrth eu llunio ac o effaith unrhyw bolisi neu fenter a fabwysiadwyd gan y Cyngor wrth fonitro'r polisi neu fenter.
- 1.2.2. Yn yr un modd bydd mesurau'r cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith. Gwneir hyn trwy sicrhau bod asesiad gwrthrychol o'r oblygiadau.
- 1.2.3. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu bydd yn effeithio ar gynlluniau iaith sefydliadau eraill sydd o dan ddylanwad y Cyngor.

1.3 Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

- 1.3.1 Byddwn yn prif-ffrydio'r iaith Gymraeg drwy ein holl waith, ac ar bob lefel, boed hynny ar lefel cynllunio neu gyflwyno. Byddwn yn gweithio i ddiffiniad y Llywodraeth o brif ffrydio, sef:
- “ Ystyried y Gymraeg ymhob agwedd o'ch gwaith ac ymhob peth rydych yn ei wneud, gyda'r nod o sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i:
- 1) Hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg
 - 2) Cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru wir ddwyieithog; a
 - 3) Cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg”.
- 1.3.2 Bydd y Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gwbl ymwybodol o ofynion y Cynllun. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn sicrhau bod gofynion y Cynllun yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith a wneir gan eu hadrannau ac mewn gwaith a wneir ar eu rhan gan unigolion/gyrff eraill. Byddant hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn eu Gwasanaethau ac am fonitro targedau perfformiad a monitro gweithrediad oddi fewn i'r Gwasanaethau
- 1.3.3 Ym mhob achos lle darperir unrhyw ddogfen, arwydd neu ysgrifen arall yn ddwyieithog yng nghyd-destun y ddogfen bolisi hon, y Gymraeg a'r Saesneg yw'r ddwy iaith a ddynodir gan y gair "dwyieithog" gan y Cyngor yn unol â'r polisi hwn.

1.4. Y Cefndir Demograffig

- 1.4.1 Yn ôl y Cyfrifiad diweddaraf, yn 2001, roedd gan Wynedd boblogaeth breswyl o 116,843 gyda 48% yn wryw a 52% yn fenyw. Oed cyfartalog preswylwyr y Sir yw 40 gyda 19% o'r boblogaeth yn yr oedran 0-15 oed, 56% yn y grŵp oedran rhwng 16 a 59 gyda 25% o'r boblogaeth yn 60 oed neu drosodd (uwch na'r Cyfartaledd Cymreig). Yn nghanol-2008, amcangyfrifir bod gan Wynedd boblogaeth breswyl o 118,207 gyda 48.7% yn wryw a 51.3% yn fenyw.
- 1.4.2. Ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf gostyngodd y boblogaeth gynhenid gyda mewnfudo yn cuddio'r gostyngiad mewn poblogaeth ifanc wrth i bobl ifanc fudo i chwilio am waith ac addysg uwch.
- 1.4.3. Yn 2001, Gwynedd oedd gyda'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg trwy Gymru - 69% fel canran o'r cyfanswm o breswylwyr dros 3 oed yn ôl Cyfrifiad 2001. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymreig o 20.8%. Mae'n gadarnhaol nodi mai yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2004-2006 Bwrdd yr Iaith, mae 83.3% o bobl yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, unwaith eto'r canran uchaf drwy Gymru. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymreig o 58.4%.
- 1.4.4. Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn uwch mewn rhai ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd y chwareli gynt, ond yn sylweddol is mewn sawl ardal ar arfordir Meirionnydd

Ardaloedd Trefol	Ward	% Siaradwyr Cymraeg
Caernarfon	Cadnant	85.5
	Menai (Caernarfon)	83.7
	Peblig	88.0
	Seiont	87.2
Porthmadog	Dwyrain	84.2
	Gorllewin	64.8
Pwllheli	Gogledd	81.5
	De	78.4
Dolgellau	Gogledd	67.0
	De	73.0
Bala	Bala	80.3
Bangor	Deiniol	30.4
	Dewi	58.9
	Garth	46.0
	Glyder	54.9
	Hendre	51.9
	Hirael	52.7
	Marchog	54.1
	Menai (Bangor)	27.4

Ardaloedd y Chwareli	Ward	% Siaradwyr Cymraeg
Penygroes	Penygroes	87.9
Bethesda	Gerlan	74.3
	Ogwen	79.0
Blaenau Ffestiniog	Teigl	80.0
	Diffwys a Maenofferen	83.7
	Bowydd a Rhiw	79.4

Arfordir Meirionnydd	% Siaradwyr Cymraeg
Aberdyfi	41.9
Abermaw	43.5
Bryncrug / Llanfihangel	58.1
Dyffryn Ardudwy	48.4
Harlech	58.8
Llanbedr	50.2
Llangelynnin	40.7
Tywyn	40.5

2.0 GWASANAETHAU

2.1 Gwaith y Cyngor.

2.1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu a sicrhau mwyafrif llethol o wasanaethau Llywodraeth Leol i bobl Gwynedd, a gweler isod grynodedeb o strwythur Gwasanaethau'r Cyngor a'u dyletswyddau:

- Gwasanaethau Cymdeithasol; oedolion, plant a theuluoedd
- Rheoleiddio; amgylchedd, cynllunio, trafndiaeth, gofal stryd, gwarchod y cyhoedd
- Cyllid; archwilio a risg, buddsoddi a rheolaeth trysorlys, cyfrifeg,

ariannol, pensiynau a chyflogau, refeniw.

- Darparu a Hamdden; gwasanaethau preswyl a dydd, gofal cymunedol, arlwyo, glanhau a gofalwyr adeiladau, hamdden, cefnogaeth busnes a gweinyddiaeth.
- Strategol a Gwella; perfformiad a chraffu, caffael ac effeithlonrwydd, cyfeiriad strategol
- Adnoddau Dynol; iechyd a diogelwch, hyfforddiant, cefnogol, polisi adnoddau dynol.
- Tai; Strategaeth Tai, digartrefedd, tai sector breifat, Sipsiwn a Theithwyr, Cefnogi Pobl
- Addysg; disgyblion a chynhwysiad, adnoddau, ysgolion, consortiwm addysg.
- Priffyrdd a Bwrdeistrefol; priffyrdd a bwrdeistrefol, rheoli gwastraff a strydoedd, gwaith priffyrdd, gwaith bwrdeistrefol, trin gwastraff, fflyd
- Gofal Cwsmer; technoleg gwybodaeth, tir ac eiddo'r Cyngor, gwybodaeth, cyswllt cwsmer, llyfrgelloedd, cynllunio argyfwng
- Democratiaeth a Chyfreithiol; monitro, cyfreithiol, democratiaeth, cofrestru.
- Ymgynghoriaeth Gwynedd; ffyrdd a chaffael, peirianeg a rheolaeth adeiladau, adeiladau ac amgylcheddol.
- Economi a Chymuned; cefnogi busnes, twristiaeth, marchnata a gofal cwsmer, morwrol a pharciau gwledig, archifau, amgueddfeydd a chelfyddydau ieuencid, sgiliau a mentergarwch, hyfforddiant Gwynedd, adfywio cymunedol, prosiectau sylweddol, strategaeth a datblygu.

2.1.2 Lleolir canolfan weinyddol y Cyngor yn Swyddfa'r Cyngor yng Nghaernarfon gyda'r prif swyddfeydd ym Mangor, Dolgellau, Pwllheli a Chaernarfon.

2.1.3 Bydd y Cyngor yn datblygu a mabwysiadu cynlluniau busnes fydd yn sail i fonitro gweithrediad yn flynyddol.

2.2. **Safonau Ansawdd.**

2.2.1. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i'r Safonau Ansawdd a nodir yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg: meysydd megis gwasanaethau wyneb yn wyneb, paratoi testun, technoleg gwybodaeth a gwasanaeth

rheng flaen.

- 2.2.2 Bydd gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i dderbyn neu ddefnyddio pob un o wasanaethau perthnasol y Cyngor ac i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn ei ddewis iaith, boed yn Gymraeg neu Saesneg. Defnyddir Cynlluniau Gwella corfforaethol ac adrannol i osod y nod ar gyfer asesu, monitro a chyhoeddi'r sefyllfa. Defnyddir dangosyddion perfformiad y Cyngor a bydd yr un targedau ar gyfer gwasanaeth trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.
- 2.2.3 Bydd pob aelod o staff a ddaw wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai mewn derbynfeydd, gwasanaeth cownter a Chanolfan Gyswilt, yn ddwyieithog ac yn gallu ateb ymholiadau ac ymdrin â'i briodfaes yn rhugl yn y ddwy iaith. Bydd y sawl sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran y Cyngor yn ymorol bod ganddynt staff wrth law a all gyfathrebu yn Gymraeg.
- 2.2.4 Disgwylir y bydd unrhyw swyddogaethau sydd wedi cael eu dirprwyo, er enghraifft i bwyllgorau ardal neu fwrdd masnachol, yn cael eu gweithredu yn yr un modd â darpariaeth uniongyrchol gan y Cyngor o dan y Cynllun Iaith.

2.3 **Gwasanaethau a Gynhelir i'r Trethdalwyr ar ran y Cyngor gan eraill.**

- 2.3.1 Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir gyda thrydydd parti ac sydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau statudol neu asiantaethol i'r cyhoedd yng Ngwynedd ar ran y Cyngor yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) wasanaethau a gaiff eu contractio allan o wirfodd neu'n orfodol, gan gynnwys gwasanaethau mewnol y Cyngor.
- 2.3.2 Mae'r Cyngor yn gweithredu rhai o'i ddyletswyddau cyhoeddus trwy gytundeb â chyrrff eraill, cyrrff preifat, gwirfoddol a chyhoeddus.

Mae'n bwysig fod y Cyngor trwy gyfrwng y trefniadau i osod cytundeb i asiantaethau, i gyrrff cyhoeddus eraill, cwmnïau, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrrff gwirfoddol ac unigolion allanol, yn sicrhau bod yr asiantaeth, cwmni, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrrff gwirfoddol, neu'r unigolion hynny yn gweithredu yn unol â disgwyliadau'r Cyngor a nodir oddi fewn i'r cytundeb. Disgwylir felly i ymgymerwyr sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion arbennig unrhyw gytundeb lefel gwasanaeth neu contract ac adrodd yn ôl yn ôl y gofyn.

- 2.3.3. Mae'r Cynllun hwn yn un mor berthnasol i unrhyw gorff cyhoeddus arall, asiantaeth, cwmni allanol neu gorff gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor ag ydyw i'r Cyngor ei hun.

- 2.3.4 Wrth osod unrhyw gytundeb bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod y swyddog sy'n gosod cytundeb gydag asiantaeth, cwmni, corff gwirfoddol neu statudol yn ystyried gofynion ieithyddol ac yn eu cytuno gyda'r darparwr sy'n ymgymryd â chynnal gwasanaeth ar ran y Cyngor ymlaen llaw er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion ieithyddol y Cyngor. Gwneir hynny drwy gynnwys manylion perthnasol am y gofynion ieithyddol sydd ynghlwm â'r cytundeb yn y ddogfennaeth tendr neu gytundeb lefel gwasanaeth a roddir i'r asiantaeth, cwmni, corff cyhoeddus neu gorff gwirfoddol perthnasol. Disgwylir i ddarparwyr y fanyleb gytuno gofynion ieithyddol, a gosod targedau fel modd i'w mesur wrth fonitro'r cytundeb.
- 2.3.5 Pan fo'r Cyngor yn comisiynu gwasanaethau a roddir i'r cyhoedd bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson â thelerau perthnasol y Cynllun hwn trwy osod y gofynion ieithyddol ac yna eu monitro.
- 2.3.6. Mewn achos lle mae'r Cyngor yn cyd-ddarparu gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd, anogir cyflenwyr y gwasanaeth i ddefnyddio'r Gymraeg a bydd darparu gwasanaeth dwyieithog yn rhan o'r trefniant. Rhoddir pob cymorth a chyngor posibl er mwyn iddynt wneud hynny.

2.4. Cyd-Ddarparu Gwasanaethau

- 2.4.1 Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau yn allweddol i'r dyfodol ac yn faes y bydd gofyn i'r Cyngor ei ddatblygu fwyfwy. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau disgwyliadau trigolion y Sir o safbwynt gwasanaethau dwyieithog.**
- 2.4.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion y Cynllun yma a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.**
- 2.4.3 Byddwn yn manteisio ar y cyfle a gynigir i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws wasanaethau.**

2.5 **Gweithredu drwy Bartneriaeth/Gyda Phartneriaid.**

2.5.1 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'n gweithredu ar sawl lefel ac o ganlyniad :-

(i) Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn weithredol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith.

(ii) Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth, ac mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y Cyngor yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.

(iii) Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith.

(iv) Pan fo'r Cyngor yn ymuno â neu ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

2.5.2 Gall y Cyngor gynorthwyo'r uchod, e.e. trwy gynnig cyngor ynglŷn â dwyieithrwydd, llogi offer cyfieithu.

2.6 **Noddi a Grantiau.**

2.6.1 Defnyddir nawdd neu grant i sector, grŵp neu unigolyn fel un arf gyhoeddus ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn lleol. Gall hyn fod yn ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn weledol.

2.6.2 Wrth osod grant neu nawdd i gymdeithas neu grŵp cymunedol, bydd y Cyngor yn gofyn am eglurhad ynglŷn â sut y byddent yn darparu gwasanaeth dwyieithog drwy'r nawdd gan osod telerau'n unol a gofynion y cais

2.6.3 Wrth osod grant neu nawdd, disgwylir i'r staff perthnasol ddilyn canllaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyrannu nawdd a gratiau a monitro cydymffurfiaeth.

2.7. Cymorth a Grantiau i Fusnes.

- 2.7.1 Bydd y Cyngor yn dilyn Canllawiau Dyrannu Grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd yr holl ddeunydd a fydd yn cael ei ddsbarthu gan y Cyngor i'r gymuned fusnes yn lleol yn ddwyieithog.
- 2.7.2 Bydd yr holl ddeunydd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth, i farchnata ac i ddenu buddsoddiad i'r ardal yn nodi a chydabod yr iaith Gymraeg.
- 2.7.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i sefydliadau, mudiadau, cyrff ac unigolion sydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned fusnes yn lleol i wneud hynny yn ddwyieithog.
- 2.7.4 Bydd y Cyngor, trwy gynnig grantiau i fusnes, yn annog y busnesau hynny i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel arf masnachol.
- 2.7.5 Bydd y Cyngor fel rhan o'r broses monitro grantiau yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnes.
- 2.7.6 Bydd y Cyngor yn darparu taflen wybodaeth fydd ar gael i'r gymuned fusnes fel modd o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn lleol yn ogystal â rhestru ffynonellau gwybodaeth a chymorth gyda defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y busnes. Bydd y daflen yma'n cael ei chynnwys fel mater o drefn gyda phob llythyr cynnig sydd yn cael ei anfon.
- 2.7.7 Bydd unrhyw gytundeb sydd yn ymwneud a dosbarthu grantiau i fusnesau yn cynnwys cymal fydd yn nodi polisi iaith y Cyngor a'r cyfrifoldeb sydd ar bawb i ddefnyddio'r iaith mewn ffordd adeiladol a phriodol.

2.8 Gweithredu'r Canllawiau.

- 2.8.1 Darperir canllawiau ysgrifenedig i staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr. Sefydlir prosesau i sicrhau bod y staff yn cadw atynt.
- 2.8.2 Bydd y Cyngor yn annog cwmnïau, sefydliadau preifat a mudiadau gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau i'r cyhoedd o fewn ardaloedd y Cyngor i ymdrin â'r ddwy iaith ar sail gyfartal.
- 2.8.3 **Gall y Cyngor ystyried cais gan gwmni neu fudiad i gynhyrchu deunyddiau, arwyddion neu gynnal digwyddiad yn y Gymraeg yn unig. Yn y cyd-destun yma, bydd y Cyngor yn defnyddio ei ddisgresiwn mewn modd rhesymol.**

- 2.8.4 Disgwylir i gyrrff sy'n gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor i wasanaethu arnynt ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn ar gyfer cynrychiolwyr y Cyngor, e.e. holl ddeunydd ysgrifenedig dwyieithog, cyfieithu ar y pryd.
- 2.8.5 Disgwylir i'r holl ddeunydd a fo'n cael ei ddosbarthu trwy'r Cyngor i'r cyhoedd, cynghorwyr neu staff y Cyngor (e.e. cylchlythyrau) o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol fod yn ddwyieithog.
- 2.8.6 Bydd gohebiaeth gan fudiadau sydd â'r prif amcan i gefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg ar gael yn y Gymraeg yn unig.
- 2.8.7 Bydd y Cyngor yn cymryd pob cyfle posibl i hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg gan unrhyw gwmni, mudiad neu unigolyn sy'n gweithredu yn ardal y Cyngor.
- 2.8.8. Yn arbennig bydd y Cyngor yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus a archwilir gan y Cyngor, e.e. ysgolion.
- 2.8.9. Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac i drafod gofynion ein Cynllun Iaith gyda'r sawl sy'n darparu ar ein rhan neu'n derbyn arian gennym. Fodd bynnag mewn rhai achosion pan mae problemau'n parhau heb ymdrech ar ran y darparwr i wella, rhaid datgan ein parodrwydd i roi rhybudd i ddwyn cytundeb i ben os nad yw'r darparwr yn gallu dangos ymdrech resymol i wella. Yn yr un modd, os nad oes cydymffurfiaeth a'r gofynion ieithyddol, gallwn wrthod grant yn llawn neu'n rhannol yn unol â'r gofynion ieithyddol o fewn yr amodau.**

3. DELIO A'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG.

3.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

- 3.1.1 Yn amodol ar 3.1.2. Isod, gall unrhyw un ohebu â'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg ac atebir pob gohebiaeth bersonol yn yr iaith y mae'n cael ei hanfon trwy lythyr wedi ei llofnodi. Bydd llythyrau, ym mha iaith bynnag y bônt, yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol, sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith, ateb llawn o fewn 15 diwrnod gwaith. Ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth wedyn yn y Gymraeg oni bai fod yr unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth Saesneg
- 3.1.2 Pan fo swyddog o'r Cyngor yn cychwyn gohebiaeth ag unrhyw unigolyn, cymdeithas neu gwmni ar ffurf llythyr, cylchlythyr neu lythyr safonol, yna dylid ysgrifennu'r ohebiaeth honno naill ai yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Bydd staff yn gwybod yn aml a yw'r sawl yr ysgrifennir ato yn gallu'r Gymraeg ai peidio. Dylid ysgrifennu at unigolion sy'n gallu'r Gymraeg yn y Gymraeg os nad yw'n hysbys mai dymuniad yr unigolyn yw derbyn gohebiaeth yn y Saesneg pryd ysgrifennir yn Saesneg. Ymhob achos arall dylid ysgrifennu yn ddwyieithog. Yn barod darparwyd canllawiau i staff ar y mater hwn.
- 3.1.3 Dylid gohebu gyda chyrrff cyhoeddus a rhai wedi eu dadwladoli yng Nghymru yn y Gymraeg yn unig.
- 3.1.4 **Dylid sicrhau cywirdeb unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon. Anogir staff i ddefnyddio CySill ac i ddilyn canllawiau Cymraeg Clir. Disgwylir i bob Rheolwr sicrhau ansawdd deunydd ysgrifenedig ar gyfer y cyhoedd fel bo'r angen.**

3.2 Ffonio

- 3.2.1 Bydd pob cynghorydd cwsmer, croesawydd ar dderbynfa, negeseuon ffôn y Ganolfan Gyswllt, peiriannau ateb, systemau eraill ar gyfer Pencadlys, swyddfeydd rhanbarth a mannau cyhoeddus eraill y Cyngor yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna yn y Saesneg) mewn ffordd groesawgar.
- 3.2.2 Bydd mwyafrif llethol o staff y Cyngor sydd yn derbyn galwadau uniongyrchol yn medru delio â'r galwadau'r rheini yn y Gymraeg. Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg a'r Swyddog sy'n ateb yn methu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ddelio â'r mater, dylai'r swyddog esbonio a gofyn a yw'r galwr yn dymuno siarad â siaradwr Cymraeg. Os bydd y galwr yn dymuno siarad â siaradwr Cymraeg dylid trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg a all ymdrin â'r mater. Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwyr(aig),

anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer i G/Chymraeg.

3.2.3 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg gyntaf.

3.3 **Cyfarfodydd cyhoeddus**

3.3.1 Pan drefnir cyfarfod, gwrandawiadau neu ymchwiliad cyhoeddus gan y Cyngor, darperir cyfieithu ar y pryd oni bai fod Ysgrifennydd y Cyngor o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd galw am y gwasanaeth.

3.3.2 Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor gall unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl ei ddymuniad. Defnyddir offer cyfieithu parhaol yn yr ystafelloedd hynny o eiddo'r Cyngor lle mae offer o'r fath, neu fel arall defnyddir offer cyfieithu symudol. Byddwn yn disgwyl i Swyddogion arweiniol neu gadeiryddion unrhyw gyfarfod tynnu sylw ar ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gychwyn pob cyfarfod, gan annog defnyddio'r offer er mwyn hyrwyddo dewis iaith

3.3.3 Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r fath y bydd offer cyfieithu ar gael ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith.

3.3.4 Yn achos cyfarfodydd o'r fath bydd y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod neges yn cael ei chyfleu ar raglen, gwahoddiad, neu hysbyseb sydd ynghlŷn â'r cyfarfod, i ddynodi y bydd gwasanaeth cyfieithu yn y cyfarfod. Disgwylir i unrhyw ddogfennaeth ynghlwm a chyfarfod cyhoeddus fod yn ddwyieithog.

3.3.5 Byddwn yn cyfarwyddo staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol, ac i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd.

3.4. **Cyfarfodydd heb fod yn Gyhoeddus**

3.4.1 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bob amser y bydd staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd y tu allan i'r swyddfeydd yn ddwyieithog. Trwy wneud hynny gallant sicrhau eu bod nhw yn:

- cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â'r Cyngor;
- cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad; a

- chydabod y gall gwadu yr hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.

3.4.2 Darperir gwasanaethau gan y Cyngor mewn nifer o sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- adeiladau'r Cyngor, e.e. cartrefi'r henoed, llyfrgelloedd, swyddfeydd talu rhent, canolfannau hamdden,
- cartrefi trigolion trwy ardal y Cyngor, e.e. gofal yn y gymuned, cynnal a chadw tai cyngor, gwasanaeth llyfrgell i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ,
- trwy ardal y Cyngor, e.e. casglwyr sbwriel, wardeniaid cefn gwlad, swyddogion ceisiadau cynllunio, gweithwyr cynnal a chadw ffyrdd.

Ym mhob achos, yn unol â nod y Cyngor, y bwriad yw sicrhau presenoldeb staff dwyieithog sy'n medru cyflawni'r dasg dan sylw yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gan fod y mwyafrif llethol o staff y Cyngor yn ddwyieithog, ni cheir unrhyw drafferth i gwrdd â'r nod fel arfer. Wrth recriwtio staff newydd bydd asesiad o anghenion ieithyddol y swydd.

3.4.3. Lle nad oes dim ond un aelod o staff y Cyngor ar gael i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd - yn un o sefydliadau'r Cyngor, yng nghartref unigolyn neu yn y maes - bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y person yn ddwyieithog.

3.4.4 Os daw swyddog Di-Gymraeg i gyswllt uniongyrchol ag aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad Cymraeg dylai esbonio na all ef/hi siarad Cymraeg a nôl swyddog dwyieithog i ddelio â'r mater ar fyrder. Mewn achosion o'r fath lle bo'r swyddog yn ddysgwyr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg.

3.4.5 Yn achos cyfarfyddiadau y tu allan i adeiladau'r Cyngor, e.e. cyfarfodydd yng nghartrefi aelodau o'r cyhoedd neu gyfarfodydd yn y maes, lle bydd hi'n wybyddus ymlaen llaw y bydd y swyddog yn cyfarfod â siaradwyr Cymraeg, gwneir trefniadau i sicrhau mai swyddog dwyieithog fydd yn mynd i'r cyfarfyddiad.

3.4.6 Gyda ffeiliau personol (e.e. ffeiliau Gwasanaethau Cymdeithasol), disgwylir i Swyddogion nodi'n glir beth yw iaith yr unigolyn er mwyn sicrhau bod dewis iaith y cleient yn cael ei barchu'n gyson.

3.4.7 Disgwylir i unrhyw drydydd parti sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Ngwynedd ar ran y Cyngor, weithredu yn union fel y byddai'r Cyngor ei hunan wedi gweithredu o dan yr un amgylchiadau.

3.5 Ffyrdd eraill o ddelio â'r cyhoedd.

- 3.5.1 Yn wyneb datblygiadau sylweddol ym maes technoleg gwybodaeth bydd unrhyw gysylltiadau â'r cyhoedd trwy gyfrwng cyfrifiadurol yn dilyn y mesurau a osodwyd yn achos 'Gohebiaeth Ysgrifenedig' uchod.
- 3.5.2 Bydd yn cynnwys rhaglenni cyfrifiaduron, cysylltiadau telefideo a thelegynhadledda, post electroneg a systemau cyfarch cyhoeddus.
- 3.5.3 Bydd y manylebau ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol newydd neu rai amnewid i'w haddasu, yn galluogi'r Cyngor i weithredu'r ymrwymadau sydd yn y Cynllun. Pe bai'n amhosibl addasu system gyfrifiadurol er mwyn hwyluso'r Cynllun bydd cyfieithiad dros dro trwy gyfrwng arall ar gael pe bai galw amdano.
- 3.5.4 Bydd Safle Gwe'r Cyngor yn gwbl ddwyieithog, cyfeiriad y safle Gwe'n ddwyieithog a ble defnyddir systemau sgrin gyffwrdd, darperir y gwasanaeth yn ddwyieithog.
- 3.5.5 Wrth ddefnyddio'r neges safonol (disclaimer) ar ddiwedd pob E-bost, bydd y Cyngor yn sicrhau fod y neges yn ymddangos yn ddwyieithog.

3.6 Defnydd o wasanaethau trwy'r Gymraeg

- 3.6.1 Mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo defnydd o'i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod ei staff yn gallu delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg mewn iaith ddealladwy ac eglur.
- 3.6.2 Hefyd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod ffurf ei ddeunydd cyhoeddus a'i arddull yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddealladwy i'r cyhoedd ac yn eglur i'w ddarllen ac i ymateb iddo.
- 3.6.3 Gan y bydd holl ddeunydd cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog a'r rhan helaethaf o staff y Cyngor yn ddwyieithog, ceir cyfleoedd amrywiol i annog a hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd.

4. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR.

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.1.1 Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.
- 4.1.2 Bydd pob ffurflen, cylchlythyr neu ddogfen arall a gyhoeddir gan y Cyngor ac a ddsberthir i aelodau'r cyhoedd, ac unrhyw ddeunydd arddangos ysgrifenedig, yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys enw a chyfeiriad y Cyngor a'i adrannau, a'i holl gyfeiriadau perthnasol, ei logo, ei slogan gorfforaethol, papur pennawd, papur ffacs, cardiau busnes, cardiau adnabod, bathodynau adnabod, gwahoddiadau, cardiau apwyntiad, bwydlenni, tystysgrifau, cyhoeddiadau a'i holl ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys deunydd ar ffurf adroddiad, arwydd, ffurflen, hysbysiad, rhybudd neu ysgrifen ar adeilad, cerbyd neu beiriant o eiddo'r Cyngor.
- 4.1.3 Fel gyda 3.1.4 uchod, dylid sicrhau cywirdeb unrhyw ddeunydd cyhoeddus mae'r Cyngor yn ei gynhyrchu. Anogir staff i ddefnyddio CySill, a disgwylir i bob Rheolwr sicrhau cywirdeb iaith unrhyw ddeunydd ysgrifenedig ar gyfer y cyhoedd.**
- 4.1.4 Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei ddarparu ar fformat amgen (megis tâp awdio neu Braille) ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'r dewis iaith.**
- 4.1.5 Yn achos arwyddeiriau ni fyddant yn cael eu cyfieithu. Enwau Cymraeg yn unig a ddefnyddir ar gyfer wardiau etholaethol y Cyngor.

4.2 Arwyddion

- 4.2.1 Bydd pob arwydd, yn cynnwys arwyddion ffyrdd ac arwyddion cyfeirio a gwybodaeth, a godir gan y Cyngor, neu ar ei ran, a phob ysgrifen ar gerbydau o'i eiddo, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd maint, safon, eglurdeb ac amlygrwydd geiriau ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb. Fodd bynnag, enwau Cymraeg yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor mewn perthynas ag enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, strydoedd newydd ac ati, ac ar sefydliadau'r Cyngor ac eithrio lle bo'r Cyngor ei hun wedi awdurdodi defnyddio fersiwn/fersiynau eraill.
- 4.2.2 Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion byddant yn gyfartal o ran ffurf a bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg, neu os ydyw'r ddwy iaith yn gyfochrog, ar y chwith. Os bydd yn rhaid eu darparu ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint ac ansawdd a bydd yr arwydd Cymraeg un ai uwchben yr un Saesneg neu os byddant ochr yn ochr, ar y chwith. Ymhob achos bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd,

eglurder ac amlygrwydd.

- 4.2.3 Ers 1996, bu'r Cyngor yn cadw rhestrau safonol o enwau llefydd (pentrefi, trefi a chymunedau). Cytunwyd y rhestr ar lefel sirol a chymuned.

4.3 **Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd i'w Ddosbarthu**

- 4.3.1 Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Cyngor yn gwbl ddwyieithog mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni, adroddiadau, cofnodion, ffurflenni, polisïau, is-ddeddfau, adroddiadau blynyddol, papur newydd i drigolion Gwynedd, a.y.b. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod ffurf ei ddeunydd cyhoeddus a'i arddull yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddealladwy i'r cyhoedd ac yn eglur i'w ddarllen ac ymateb iddo ac yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir/Plain English.
- 4.3.2 Bydd y polisi hwn hefyd yn cynnwys deunydd cyrff a chwmnïau eraill a fydd o dro i dro yn cael ei arddangos yn adeiladau'r Cyngor. Yr unig eithriadau fydd mudiadau gyda'r prif amcan o hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg.
- 4.3.3 Bydd y deunydd hwn yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel bo'n briodol). Bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg neu'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- 4.3.4 Er mwyn sicrhau unffurfiaeth ac er mwyn osgoi dryswch, un wyddor fydd yn cael ei defnyddio wrth ddynodi paragraffau ac adrannau, a.y.b. mewn testunau, a'r wyddor Gymraeg fydd honno.
- 4.3.5 Pe byddai rhaid, am unrhyw reswm, e.e. maint dogfen, i'r Cyngor gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un adeg, am un pris am y ddwy ddogfen gyda'i gilydd ac ar gael gyda'i gilydd ple byddant ar gael.
- 4.3.6 Bydd yr holl ddeunydd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth i farchnata, i hyrwyddo ac i ddenu buddsoddiad i'r ardal yn nodi a chydabod pwysigwydd yr iaith Gymraeg.

4.4 **Ffurflenni a Deunydd Esboniadol**

- 4.4.1 Rhaid i bob ffurflen a ddefnyddir gan y Cyngor a anfonir at y cyhoedd fod yn ddwyieithog, gan roddi blaenoriaeth i'r Gymraeg, h.y., y Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith lle bo'r ddwy iaith ochr yn ochr.
- 4.4.2 Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac

amlygrwydd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac felly bydd hi yr un mor hawdd cael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall.

- 4.4.3 Gall ffurflenni neu ddeunydd esboniadol fod yn rhan o'r prif destun neu ar wahân. Os bydd ar wahân, rhaid sicrhau y byddant ar gael ar yr un pryd a'r prif destun.

4.5 **Hysbysiadau i'r Wasg**

- 4.5.1 Bydd pob datganiad gan y Cyngor i'r wasg neu i'r cyfryngau yn gwbl ddwyieithog.

- 4.5.2 Bydd cysylltiadau â'r wasg neu'r cyfryngau yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ddibynnol ar iaith y gohebydd perthnasol. Oni fydd swyddog yn gwybod am allu ieithyddol gohebwyd dylai gysylltu trwy lythyr dwyieithog.

4.6 **Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd**

- 4.6.1 Bydd mentrau hysbysebu a chyhoeddusrwydd y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog ym mha bynnag ffurf y bont, e.e. datganiadau, taflenni, posteri, rhybuddion, amserlenni a.y.b. Bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg neu, lle bo'r testun yn gyfochrog, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith, a byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

- 4.6.2 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog, gan gynnwys arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a chynadleddau. Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi neu ymchwil yn gwbl ddwyieithog ac, yn achos arolygon ymchwil, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd staff a ddefnyddir a fydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd, boed yn uniongyrchol gyflogedig gan y Cyngor neu o gwmni/corff allanol trwy gytundeb, yn ddwyieithog ac yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd, e.e. wrth gwblhau holiaduron a chynnal arolygon.

- 4.6.3 Yr unig eithriadau i'r uchod fydd:

- (a) gweithgareddau sy'n atodol i weithgarwch sy'n bennaf yn cefnogi'r iaith a diwylliant Cymraeg, e.e. Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.
- (b) yn achos rhaglenni radio neu deledu, bydd iaith yr hysbyseb neu fwletin gwybodaeth yn dibynnu ar y sianel neu orsaf dan sylw. Yn achos sianelau a gorsafoedd a dderbynnir yng Nghymru (boed y rheiny trwy

gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg), byddant yn ddwyieithog. Ar y llaw arall, yn achos sianelau a dderbynnir yn Lloegr yn bennaf, bydd unrhyw ddeunydd a ddarlledir arnynt yn Saesneg yn unig.

- (c) llyfrynnau wedi'u hanelu'n bennaf at y farchnad tu hwnt i Gymru. Byddant yn Gymreig eu naws gyda defnydd o'r Gymraeg ynddynt.

4.6.4 Disgwylir i hysbysebion a chyhoeddusrwydd ar ran parti arall a fo'n ymddangos ar eiddo, tir neu adeilad y Cyngor ddilyn y canllawiau uchod. Lle bu cytundeb rhwng y Cyngor a pharti arall ar gyfer defnyddio eiddo, tir neu adeilad y Cyngor, bydd amod i'r perwyl hwn yn y cytundeb, yn cynnwys cyhoeddusrwydd cysylltiedig (e.e. posteri, hysbysebion).

4.7 **Hysbysiadau cyhoeddus**

4.7.1 Bydd pob hysbyseb cyhoeddus a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddwyieithog ac eithrio hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg a fydd yn ymddangos yn uniaith Gymraeg.

4.7.2 Ac eithrio mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg neu, lle bo'r testun yn gyfochrog, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith a byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfwrdd neu fel arall.

4.8 **Gwaith cyfreithiol a hysbysiadau swyddogol**

4.8.1 Bydd pob dogfen gyfreithiol gyffredinol safonol yn cael ei darparu yn ddwyieithog, e.e. gorchmynion traffig a chytundebau statudol safonol lle mae'r geiriad yr un o achos i achos, h.y. lle gellir darparu dogfen safonol gyda bylchau i'w llenwi o achos i achos. Mewn achosion eraill lle bydd y Cyngor yn delio gyda pharti unigol, e.e. trawsgludiadau, prydlesau, a.y.b., defnyddir dewis iaith y parti arall.

4.8.2 Bydd hysbysiadau swyddogol statudol y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg yn uchaf. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder, amlygrwydd, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

4.8.3 Bydd holl ffurflenni ariannol cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog, gan gynnwys sieciau, anfonebau a derbynebau.

5. **Y BROSES DDEMOCRATAIDD**

- 5.1 Bydd pob rhaglen, adroddiad, cofnod a dogfen arall a gyflwynir i'r Cyngor, i bwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli, a.y.b. yn cael eu darparu yn ddwyieithog. Bydd gwasanaeth cyfieithu'r Cyngor ar gael o ran cyfieithu adroddiadau ond, o gofio mai iaith weithredol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg, anogir swyddogion i ysgrifennu eu hadroddiadau yn y Gymraeg hyd at eithaf eu gallu, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig.
- 5.2 Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn holl gyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, paneli a.y.b. Darperir cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn holl gyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli a chyfarfodydd eraill a gynhelir gan y Cyngor lle bo aelodau o'r Cyngor yn bresennol. Bydd cyfieithiad ar y pryd ar gael i bawb Di-Gymraeg a fo'n bresennol yn y cyfarfod, boed aelodau etholedig, swyddogion, y cyhoedd neu'r wasg. Yn absenoldeb cyfieithu ar y pryd am unrhyw reswm, gall gwaith cyfarfod fynd yn ei flaen ond fe sicrha'r Cadeirydd ar gais unrhyw aelod (gan gynnwys y siaradwr ei hun) fod union eiriad unrhyw gynigiad, gwestiwn, ateb neu bwynt o drefn ac o leiaf sylwedd unrhyw araith neu sylw yn cael eu cyfieithu.
- 5.3 Disgwylir i gyrrff allanol ddarparu papurau dwyieithog os bwriedir eu cyflwyno i gyfarfod. Pan drefnir i ymgynghorwyr neu gwmnïau allanol gynhyrchu adroddiadau neu ddogfennau eraill i'w dosbarthu i aelodau etholedig neu'r cyhoedd bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno'r deunydd yn ddwyieithog, gan gynnwys fersiynau drafft.

6. GWEINYDDIAETH FEWNOL Y CYNGOR

- 6.1 Iaith swyddogol gweithredu mewnol y Cyngor yw'r Gymraeg. Golyga hynny y dylai pob memorandwm, e-bost a chofnodion mewnol fod yn y Gymraeg yn unig ac i'r perwyl hwn dylai'r penawdau printiedig ar ffurflen memorandwm fod yn y Gymraeg yn unig, yn ogystal â'r holl systemau gweinyddol eraill.
- 6.2 Mae mwyafrif llethol staff y Cyngor yn ddwyieithog ond ar adegau penodi rhai na fyddant yn gallu'r Gymraeg. Disgwylir i bob Adran o'r Cyngor wneud trefniadau mewnol fel bo gohebiaeth a anfonir gan aelodau staff Di-Gymraeg yn cael ei chyfieithu cyn ei hanfon a dylid gwneud hynny fel arfer yn fewnol heb gyfeirio'r ohebiaeth i'w chyfieithu gan gyfieithwyr y Cyngor. Byddai'r cyfieithwyr ar gael i gynorthwyo fel bo'r angen gyda gohebiaeth faith, gymhleth neu dechnegol.
- 6.3 Yn yr un modd pan fydd swyddog Di-Gymraeg yn derbyn memorandwm dylid gwneud trefniadau mewnol ym mhob Adran i gyfieithu'r memorandwm hwnnw ar gyfer y swyddog Di-Gymraeg a fydd yn delio â'r mater. Dros amser fel y bydd swyddogion Di-Gymraeg yn dod i ddeall yr iaith yn well bydd yr angen am hyn yn lleihau. Bydd natur y cyfieithu yn dibynnu ar safon Cymraeg y swyddog o bryd i'w gilydd. Ar y cychwyn efallai y bydd rhaid darparu cyfieithiad llawn yn ysgrifenedig ond ar brydiau eraill bydd cyfieithu ar lafar yn ddigonol. Y nod yw sicrhau bod y swyddog yn deall cynnwys yr ohebiaeth fel y gall ymateb iddi.
- 6.4. **Bydd negeseuon a gwybodaeth ar faterion allweddol megis amodau gwaith ac lechyd a Diogelwch ar gael yn ddwyieithog.**
- 6.5 Yn yr un modd ag y darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod i aelodau, felly hefyd mewn cyfarfodydd swyddogion os bydd swyddogion Di-Gymraeg yn bresennol. Mae'n bwysig bod pob Adran a fo'n trefnu cyfarfodydd swyddogion lle rhagwelir y bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn rhoi gwybod am hynny i'r Prif Gyfieithydd ar y cyfle cyntaf posibl er sicrhau y bydd y gwasanaeth ar gael.
- 6.6 Y mae gan y Cyngor Uned Gyfieithu cyfieithwyr proffesiynol llawn amser ar gyfer sicrhau safon deunydd dwyieithog ac ar gyfer cyfieithu unrhyw ddeunydd (ysgrifenedig, llafar, a.y.b. o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o Saesneg i Gymraeg er mwyn cyflawni nod y Cyngor o ddarparu gwasanaethau cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd. Mae holl gyfieithwyr y Cyngor yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.
- 6.7 Lle darperir gweinyddiaeth fewnol y Cyngor gan unrhyw gorff, cwmni, mudiad gwirfoddol, a.y.b., am unrhyw reswm, bydd y weinyddiaeth yn

cael ei darparu yn union fel y byddai'r Cyngor ei hunan yn darparu'r weinyddiaeth yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor.

- 6.8 Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith tuag at eu Safonau Technoleg Gwybodaeth.

7. STAFFIO

7.1. Strategaeth Sgiliau Ieithyddol

- 7.1.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i gefnogi'r Cynllun hwn.

7.2 Staff y Cyngor

- 7.2.1 Er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn, bydd yn ofynnol i holl staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol i ddibenion y swydd er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n llawn. Mae'r Cyngor yn dymuno cydweithio gyda'i staff er cyrraedd y sefyllfa honno ac mae'n cydnabod y bydd rhaid bod yn hyblyg wrth gyrraedd y nod. Yn yr un modd mae'r Cyngor yn disgwyl i'r staff fod yn ymroddgar a chydweithredu er cyrraedd y nod hwnnw.

7.3 Lefel Ieithyddol Swyddi

- 7.3.1 **Penodir lefel iaith briodol i bob swydd yn y Cyngor ar gyfer anghenion y swydd honno. Bydd rhaid i ddeiliaid swyddi penodedig allu cyrraedd y gofynion ieithyddol o ddyddiad cychwyn eu cyflogaeth yn y swyddi hyn.**
- 7.3.2 **Ar gyfer swyddi eraill gall fod yn bosib i ddeiliaid swyddi ddatblygu eu sgiliau angenrheidiol i gyrraedd anghenion y swydd dros amser. Os nad yw'n bosib penodi swyddog sy'n cyrraedd y gofynion ieithyddol llawn i'r swyddi hyn, bydd y Cyngor yn ystyried a yw'n briodol penodi ymgeisydd sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu hyd at y lefel hon. Penodir yr ymgeiswyr hyn ar yr amod y byddant yn cyrraedd y lefel berthnasol o fewn amserlen gytunedig, mewn ymgynghoriad â'r tiwtor Cymraeg. Bydd yr amserlenni'n ymarferol, gan osod nodau cyraeddadwy, a synhwyrol, gan ystyried natur y swydd, lefel ieithyddol y swydd a sgiliau ieithyddol presennol yr ymgeisydd. Bydd hyn yn amod o'i gytundeb cyflogaeth gwaith, a bydd yn cael ei fonitro**
- 7.3.3 **Bydd y rheolwr llinell a'r unigolyn a benodwyd yn hollol ymwybodol o'r hyn a olygir gan lefel iaith y swydd, gan gyfeirio at y fframwaith iaith. Lle nad yw'r fframwaith iaith yn ddigon manwl,**

bydd angen gosod nodau ieithyddol sy'n cydweddu â'r lefel yn y fframwaith, ac sy'n cyd-fynd â gofynion y swydd. Gall y Swyddog Datblygu Gweithlu/Cydgysylltydd iaith roi cymorth yma. Dylid defnyddio'r fframwaith fel sail i osod gofynion ieithyddol penodol y swydd.

7.4 Hysbysebu am staff

7.4.1 Wrth hysbysebu swyddi bydd y Cyngor yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.

7.4.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddwyieithog, ac eithrio:-

(a) Yn Uniaith Gymraeg:

Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg.

(b) Yn y Gymraeg yn unig gyda nodyn esboniadol byr yn y Saesneg:

Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Saesneg am swyddi:

- lle mae'n hanfodol i'r deiliad gyrraedd gofynion ieithyddol y swydd o ddyddiad cychwyn y swydd dan sylw.
- lle nad yw'n hanfodol i ddeiliad gyrraedd gofynion ieithyddol y swydd o ddyddiad cychwyn y swydd; bydd hyn yn sefyll hyd nes ceir tystiolaeth sy'n dangos bod penodi swyddog sydd yn cyrraedd y gofynion ieithyddol llawn yn amhosib.

7.4.3 Bydd pob hysbyseb recriwtio dwyieithog yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd y naill destun uwchben y llall gyda'r Gymraeg yn uchaf. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

7.5 Hyfforddiant a Chefnogi Dysgwyr

7.5.1 Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn paratoi cyllid ar gyfer hynny.. Disgwylir i bob adran fabwysiadu trefniadau mewnol i gefnogi'r swyddogion hynny i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

7.5.2 Wrth ddarparu i aelodau staff ddysgu'r iaith tuag at safon sy'n briodol i ddibenion y swydd, paratwir a darperir hyfforddiant a chefnogaeth deilwng ar gyfer yr unigolyn. Bydd yr hyfforddiant hwn yn seiliedig ar asesiad manwl o'r anghenion yr unigolion yn dilyn y penodiad i'r swydd. Sylweddolir y bydd gallu ieithyddol yn amrywio o swyddog i swyddog a

bydd y Cyngor yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth eu hasesu. O ran y Cyngor yr ymroddiad a'r ymdrech sy'n bwysig a bydd y Cyngor yn hyblyg ac yn amyneddgar mewn achosion lle dangosir hynny. Tra pery cynnydd ac ymroddiad bydd y Cyngor yr un mor ymroddgar i alluogi staff i gyrraedd y safon briodol. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn monitro cynnydd.

- 7.5.3 Bydd cyfle yn ogystal i unrhyw aelod etholedig sy'n dymuno gwella eu sgiliau ieithyddol ymuno yng ngwersi iaith y Cyngor
- 7.5.4 **Anogir staff sy'n dysgu Cymraeg i chwilio am gydweithwyr fyddai'n fodlon bod yn Fentor Cymraeg iddynt. Cefnogir hyn gan y Swyddog Datblygu Gweithle sy'n rhoi cyngor i'r Mentoriaid yn unigol ar sut y gallant gefnogi'r dysgwr yn y gweithle.**
- 7.5.5. **Cyflwynir Gwobr Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol i ddysgwyr er mwyn cydnabod ymdrech staff sy'n gwneud cynnydd arbennig yn y deuddeg mis blaenorol. Mae'r Wobr hefyd yn cydnabod gwaith a chyfraniad Mentoriaid iaith.**
- 7.5.6 Wrth drefnu hyfforddiant galwedigaethol, bydd gofyn hysbysu swyddogion am gyrsiau priodol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd anogaeth i swyddogion ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol. Yn achos cyrsiau a ddarperir yng Nghymru trwy gyfrwng Saesneg, bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol yn gyfrifol am bwysu ar y cyrff arholi/asesu perthnasol i gynnig cyfle ieithyddol cyfartal i fyfyrwyr fel y gallant sefyll arholiadau/gyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg. Byddwn yn cynnal awdit o hyfforddiant galwedigaethol er mwyn darganfod ble mae'r bylchau mewn darpariaeth.

8. CWYNION

- 8.1. **Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw gwyn yn erbyn gweinyddiad ein Cynllun iaith fel tystiolaeth ynghyn a'n perfformiad ac fel cyfle i wella**
- 8.2. **Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor**
- 8.3 **Y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith sydd â chyfrifoldeb dros fonitro cwynion iaith, ac adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Is-Bwyllgor Iaith**
- 8.4 **Lle na adroddir cwynion yn uniongyrchol i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith, bydd disgwyl i holl Wasanaethau'r Cyngor gofnodi unrhyw gwynion iaith a'u hadrodd i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith, un ai wrth iddynt godi neu fel rhan o'u hadroddiad ar gyfer yr Adroddiad iaith flynyddol**

9. **GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN**

- 9.1. Byddwn yn adrodd yn flynyddol (erbyn diwedd mis Mehefin) i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein cydymffurfiaeth â'r Cynllun
- 9.2. Yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyfeiriad Strategol fydd y Swyddog Monitro
- 9.3. Dyma'r drefn adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun dros y tair blynedd nesaf:
Bydd Adroddiad Monitro blynyddol i'r Bwrdd yn cyflawni'r amcanion canlynol:-
 - (i) Mesur a yw Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio â'r Cynllun gyda mesur perfformiad yn erbyn y Rhaglen Waith.
 - (ii) Mesur ansawdd gwasanaeth rheng flaen yn Gymraeg
 - data; (gweler DIG 2, a 6 isod)
 - (iii) Mesur a yw ei reolaeth/gweinyddiad o'r Cynllun yn ddigonol
 - gwerthusiad gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg;
 - adroddiad ffocws ar wasanaeth ar ran y Cyngor gan drydydd parti (DIG 1);
 - (iv) Mesur digonolrwydd ein sgiliau ieithyddol staff drwy gymharu angen ag adnodd. Drwy ddatblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, byddwn yn gweithio tuag at wella ein monitro ar sail dangosyddion Bwrdd yr Iaith
 - Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol (DIG 4a)
 - Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith (DIG 4 b)
 - Nifer a % staff o fewn y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgolion); fesul adran wasanaeth, yn ôl gradd y swydd a fesul gweithle (DIG 5)
 - (v) Byddwn yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol ar brif ffrydio gydag enghreifftiau a gymerwyd i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y Cyngor a defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- 9.4. Bydd y Cyngor yn crynhoi canfyddiadau i sylwebaeth fer (gyda thystiolaeth) i'r Bwrdd ac yn adrodd unrhyw wendid/ risg sylweddol, gan amlinellu cynllun gweithredol gydag amserlen.
- 9.5. Lle fo unrhyw wendidau yn dod yn amlwg fe fydd cynllun gweithredu/ adfer i'w gytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

9.6. Yn unol â'r drefn a amlinellir uchod, bydd y Cyngor yn monitro ac adrodd ar unrhyw gwyn sy'n ymwneud a gweithrediad y Cynllun Iaith.

10. YMCHWILIAD ADRAN 17

10.1. Pe byddai gofyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynnal Ymchwiliad o dan Adran 17 y Deddf Iaith bydd y Cyngor yn barod i gydweithredu'n llawn drwy ddarparu gwybodaeth; adroddiadau, dogfennau neu eglurhad i Fwrdd Yr Iaith Gymraeg.

10.2. Bydd y Cyngor yn barod i wneud hynny yn ysgrifenedig neu mewn person a bydd modd i'r Bwrdd drafod gydag:

- Aelodau etholedig
- Swyddog cyflogedig gan yr Awdurdod Lleol
- Darparwr gwasanaeth trwy gytundeb neu cyflogai
- Unrhyw unigolyn all fod yn cynorthwyo'r Cyngor gyda gweithrediad ei wasanaethau

11. CYHOEDDI GWYBODAETH AR BERFFORMIAD

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei berfformiad, gyda sylw penodol yn cael ei roi at y Ddangosyddion Iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg a nodir isod a'r gofynion a thargedau eraill a nodir yn y Cynllun Gweithredu. Yn ogystal â nodi hyn yn ein Adroddiad Blyneddol i Fwrdd yr Iaith, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ar safle we'r Cyngor ac yn cyfeirio at gynnydd yn ein Cynllun Gwella .

DIG 1 Nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gan ystyried :- (i) contractau gofal cymdeithasol (ii) contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc (iii) contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol
Gwasanaethau Rheng Flaen
DIG 2 Nifer a % swyddi'r brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog.
E- lywodraeth .
DIG 3 (Technoleg Gwybodaeth) <i>i'w ddatblygu</i>
Adnoddau dynol – sgiliau
DIG 4 (a) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.

(b) Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
Adnoddau dynol – Cydraddoldeb ac amrywiaeth
DIG 5 Nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgolion)
- fesul adran wasanaeth
- yn ôl gradd y swydd
- fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal).
.
Safon y gwasanaethau iaith Gymraeg
DIG 6 Nifer y cwynion a dderbyniwyd am <u>weithrediad y cynllun iaith</u> a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.

12. HYSBYSEBU A CHYHOEDDUSRWYDD

Yn dilyn ei gymeradwyo, bydd y Cyngor yn cyhoeddi a hysbysebu'r Cynllun hwn ar ei safle we. Byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle i hysbysebu gwahanol elfennau o'r Cynllun drwy erthyglau mewn cyhoeddiadau i'r cyhoedd ac i staff.